OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2002 Rhif 3278 (Cy.316)

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

## Gorchymyn Sir Ceredigion (Newidiadau Etholiadol) 2002

| | |
|---|---|
| *Wedi'i wneud - -* | *3 Rhagfyr 2002* |
| *Yn dod i rym yn unol ag erthygl 1(2)* | |

Yn unol ag adrannau 58(1) a 64 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972(**1**) cyflwynodd Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol Cymru gynigion yn Rhagfyr 1999 ar gyfer trefniadau etholiadol y dyfodol ar gyfer Sir Ceredigion. Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan ei fod wedi cytuno â'r cynigion, yn gwneud y Gorchymyn canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 58(2) a 67(4) a (5) o'r Ddeddf.

### Enwi, cychwyn a dehongli

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Sir Ceredigion (Newidiadau Etholiadol) 2002.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym:

(a) at ddibenion achosion, sy'n arwain at unrhyw etholiad neu'n ymwneud ag unrhyw etholiad sydd i'w gynnal ar 6 Mai 2004, ar 9 Hydref 2003, a

(b) at bob diben arall, ar 6 Mai 2004.

(3) Yn y Gorchymyn hwn —

ystyr "adran etholiadol" ("*electoral division*") yw un o adrannau etholiadol Sir Ceredigion fel y'u sefydlwyd gan Orchymyn Trefniadau Etholiadol Sir Aberteifi 1994(**2**);

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Llywodraeth Leol 1972;

ystyr "map A" ("*map A*") yw'r map a baratowyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac a farciwyd "map A Gorchymyn Adrannau Etholiadol Cymuned Aberystwyth 2002" ac a adneuwyd yn unol â Rheoliad 5 o Reoliadau Newidiadau yn Ardaloedd Llywodraeth Leol 1976 (**3**);

ystyr "map B" ("*map B*") yw'r map a baratowyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac a farciwyd "map B Gorchymyn Adrannau Etholiadol Cymuned Aberteifi 2002" ac a adneuwyd yn unol â Rheoliad 5 o Reoliadau Newidiadau yn Ardaloedd Llywodraeth Leol 1976;

(**1**) 1972 p.70.
(**2**) Mae enw'r Sir wedi'i newid o Sir Aberteifi i Geredigion yn unol ag adran 74 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Cafodd y Gorchymyn hwn ei wneud ar 19 Rhagfyr 1994 gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Adran Gartref.
(**3**) O.S. 1976/246, fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau Newidiadau yn Ardaloedd Llywodraeth Leol (Diwygio) 1978 (O.S. 1978/247).

ystyr "map C" ("*map C*") yw'r map a baratowyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac a farciwyd "map C Gorchymyn Adrannau Etholiadol Cymuned Llanbadarn Fawr 2002" ac a adneuwyd yn unol â Rheoliad 5 o Reoliadau Newidiadau yn Ardaloedd Llywodraeth Leol 1976.

**Adrannau etholiadol**

**2.**—(1) Mae adrannau etholiadol presennol Sir Ceredigion a bennir yn yr Atodlen i Orchymyn Trefniadau Etholiadol Sir Aberteifi 1994 wedi'u diddymu.

(2) At ddibenion ethol cynghorwyr ar gyfer Sir Ceredigion, rhennir y Sir honno yn 40 o adrannau etholiadol yn dwyn yr enwau a bennir yng ngholofn (1) o'r Atodlen i'r Gorchymyn hwn, a bydd pob adran etholiadol o'r fath yn ffurfio'r ardal a bennir yng ngholofn (2) o'r Atodlen honno, fel y'i dynodir ar y mapiau ac fel y'i diffinnir â llinellau coch.

(3) Y nifer a bennir mewn perthynas â'r adran yng ngholofn (3) o'r Atodlen i'r Gorchymyn hwn fydd y nifer o gynghorwyr sydd i'w hethol ar gyfer pob adran etholiadol o'r fath.

**Y Gofrestr o Etholwyr Llywodraeth Leol**

**3.** Rhaid i'r swyddog cofrestru wneud unrhyw ad-drefniadau neu addasiadau i'r gofrestr o etholwyr llywodraeth leol sy'n angenrheidiol am fod y Gorchymyn hwn yn dod i rym.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru

*E.Hart*
Y Gweinidog dros Lywodraeth Leol, Cyllid a Chymunedau

3 Rhagfyr 2002

## YR ATODLEN


Erthygl 2

### Enwau, ardaloedd a'r nifer o gynghorwyr ar gyfer adrannau etholiadol Sir Ceredigion


| (1) Enw'r Adran Etholiadol | (2) Ardal yr Adran Etholiadol | (3) Y Nifer o Gynghorwyr |
|---|---|---|
| Aberaeron | Cymuned Aberaeron | 1 |
| Aber-porth | Cymuned Aber-porth | 1 |
| Aberteifi/ Cardigan — Mwldan | Ward Mwldan yng Nghymuned Aberteifi | 1 |
| Aberteifi/ Cardigan — Rhyd-y-fuwch | Ward Rhyd-y-fuwch yng Nghymuned Aberteifi | 1 |
| Aberteifi/ Cardigan — Teifi | Ward Teifi yng Nghymuned Aberteifi | 1 |
| Aberystwyth Bronglais | Ward Ddwyreiniol Cymuned Aberystwyth | 1 |
| Aberystwyth Canol/Central | Ward Ganalog Cymuned Aberystwyth | 1 |
| Aberystwyth Gogledd/North | Ward Ogleddol Cymuned Aberystwyth | 1 |
| Aberystwyth Penparcau | Ward Ddeheuol Cymuned Aberystwyth | 2 |
| Aberystwyth Rheidol | Ward Glanyrafon Cymuned Aberystwyth | 1 |
| Beulah | Cymuned Beulah | 1 |
| Capel Dewi | Wardiau Capel Dewi Pont-siân a Thre-groes yng Nghymuned Llandysul | 1 |
| Ceinewydd | Cymuned Ceinewydd | 1 |
| Ceulan-a-Maesmor | Cymunedau Ceulan a Maesmor Llangynfelyn ac Ysgubor-y-coed | 1 |
| Ciliau Aeron | Cymunedau Ciliau Aeron a Henfynyw | 1 |
| Faenor | Cymuned Faenor | 1 |
| Llanbadarn Fawr -Padarn | Ward Padarn yng Nghymuned Llanbadarn Fawr | 1 |
| Llanbadarn Fawr -Sulien | Ward Sulien yng Nghymuned Llanbadarn Fawr | 1 |
| Llanbedr Pont Steffan | Cymuned Llanbedr Pont Steffan | 2 |
| Llandyfrïog | Cymuned Llandyfrïog | 1 |

| (1)<br>**Enw'r Adran Etholiadol** | (2)<br>**Ardal yr Adran Etholiadol** | (3)<br>**Y Nifer o Gynghorwyr** |
|---|---|---|
| Llandysiliogogo | Cymunedau Llandysiliogogo a Llanllwchaiarn | 1 |
| Llanfarian | Cymuned Llanfarian | 1 |
| Llanfihangel Ystrad | Cymuned Llanfihangel Ystrad a wardiau Nantcwnlle a Threfilan yng Nghymuned Nantcwnlle | 1 |
| Llangeitho | Cymunedau Llanddewibrefi a Llangeitho | 1 |
| Llangybi | Cymunedau Llanfair Clydogau a Llangybi a ward Gartheli yng Nghymuned Nantcwnlle | 1 |
| Llannarth | Cymuned Llannarth | 1 |
| Llanrhystud | Cymunedau Llangwyryfon a Llanrhystud | 1 |
| Llansanffraid | Cymunedau Dyffryn Arth a Llansanffraid | 1 |
| Llanwenog | Cymunedau Llanwenog a Llanwnnen | 1 |
| Lledrod | Cymunedau Lledrod, Ysbyty Ystwyth, Ystrad Fflur ac Ystrad Meurig | 1 |
| Melindwr | Cymunedau Blaenrheidol, Melindwr a Phontarfynach | 1 |
| Penbryn | Cymunedau Llangrannog a Phenbryn | 1 |
| Pen-parc | Cymunedau Llangoedmor a'r Ferwig | 1 |
| Tirymynach | Cymuned Tirymynach | 1 |
| Trefeurig | Cymuned Trefeurig | 1 |
| Tref Llandysul | Ward Trefol yng Nghymuned Llandysul | 1 |
| Tregaron | Cymuned Tregaron | 1 |
| Troed-yr-aur | Cymuned Troed-yr-aur | 1 |
| Y Borth | Cymunedau'r Borth a Genau'r Glyn | 1 |
| Ystwyth | Cymunedau Llanilar a Thrawsgoed | 1 |


Map A Gorchymyn Cymuned Aberystwyth (Adrannau Etholiadol) 2002




Map B Gorchymyn Cymuned Aberteifi (Adrannau Etholiadol) 2002




Map C Gorchymyn Cymuned Llanbadarn Fawr (Adrannau Etholiadol) 2002



## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

O dan adran 64(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i hamnewidiwyd gan Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994) yr oedd yn ofynnol i Gomisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol Cymru adolygu'r trefniadau etholiadol cyn gynted ag y byddai'n ymarferol ar ôl yr etholiadau cyntaf i'r awdurdodau unedol ym Mai 1995.

Mae'r Gorchymyn hwn yn rhoi ei effaith i'r cynigion a wnaed yn adroddiad Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol Cymru yn Rhagfyr 1999 ar gyfer Sir Ceredigion.

Er bod y Gorchymyn yn diddymu'r holl adrannau etholiadol presennol yn y Sir ac yn eu disodli ag adrannau etholiadol newydd, yn ymarferol bydd y mwyafrif yn aros yr un fath.

Nid oes unrhyw newid i adrannau **Aberaeron, Aber-porth, Beulah, Capel Dewi, Ceinewydd, Ceulan-a-Maesmor, Ciliau Aeron, Faenor, Llanbedr Pont Steffan, Llandyfrïog, Llandysiliogogo, Llanfarian, Llanfihangel Ystrad, Llangeitho, Llangybi, Llannarth, Llanrhystud, Llansanffraid, Llanwenog, Lledrod, Melindwr, Penbryn, Pen-parc, Tirymynach, Trefeurig, Tref Llandysul, Tregaron, Troed-yr-aur, Y Borth, Ystwyth.**

Mae'r newidiadau canlynol yn cael eu gwneud gan y Gorchymyn hwn:

Rhennir adran bresennol **Aberteifi** yn dair adran etholiadol newydd, sef:

**Aberteifi/Cardigan — Mwldan**, yn cynnwys ward Mwldan cymuned Aberteifi. Mae pob adran etholiadol newydd i'w chynrychioli gan un cynghorydd;

**Aberteifi/Cardigan — Rhyd-y-fuwch**, yn cynnwys ward Rhyd-y-fuwch cymuned Aberteifi;

**Aberteifi/Cardigan — Teifi** yn cynnwys ward Teifi cymuned Aberteifi.

Rhennir Aberystwyth yn bum adran etholiadol:

**Aberystwyth Bronglais** yn cynnwys Ward Ddwyreiniol cymuned Aberystwyth, sy'n ethol un cynghorydd;

**Aberystwyth Canol/Central** yn cynnwys ward Ganolog cymuned Aberystwyth, sy'n ethol un cynghorydd;

**Aberystwyth Gogledd/North** yn cynnwys ward Ogleddol cymuned Aberystwyth sy'n ethol un cynghorydd;

**Aberystwyth Penparcau** yn cynnwys ward Ddeheuol cymuned Aberystwyth, sy'n ethol dau gynghorydd; ac

**Aberystwyth Rheidol** yn cynnwys ward Glanyrafon cymuned Aberystwyth, sy'n ethol un cynghorydd.

Rhennir adran bresennol **Llanbadarn Fawr** er mwyn creu dwy adran etholiadol o'r enw **Llanbadarn Fawr Sulien a Llanbadarn Fawr Padarn** — y naill a'r llall yn ethol un cynghorydd.

Mae ardaloedd yr adrannau etholiadol newydd wedi'u diffinio ar y mapiau manwl a ddisgrifir yn Erthygl 2. Gellir archwilio printiau ohonynt ar bob adeg resymol yn swyddfeydd Cyngor Sir Ceredigion ac yn swyddfeydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ (Yr Is-adran Moderneiddio Llywodraeth Leol).